

Strategaeth Llyfrgelloedd Sir Benfro 2021 – 2024

Cynnwys

Cynnwys	1
Rhagair	2
Cyflwyniad.....	3
Ein Gweledigaeth	3
Ein Cenhadaeth	3
Gwasanaeth Llyfrgell Sir Benfro 2021.....	4
Darpariaeth Gwasanaeth Presennol.....	4
Adolygiad Pum Mlynedd	4
Cyni.....	4
Mesurau llwyddiant	5
Glan-yr-Afon.....	6
Ymgysylltu â Chynghorau Cymuned a Thref, a'r gymuned ehangach	6
Bywydfannau	7
Tueddiadau perfformiad	7
Cyd-destun Strategol	9
Cyd-destun Strategol Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol.	9
Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru	11
Demograffeg Sir Benfro	11
Aelodaeth Llyfrgell	13
Heriau.....	15
Effaith y pandemig a sut y gallai'r gwasanaeth addasu os na chaiff y mater ei ddatrys yn y tymor byr.	15
Rôl Dechnoleg	15
Y Gymraeg	16
Effaith Amgylcheddol a Chynaliadwyedd	16
Ein Blaenoriaethau.....	18
Blaenoriaeth 1: Creu Cymunedau Cryfach ac Iachach	18
Blaenoriaeth 2: Lleihau Tlodi	19
Blaenoriaeth 3: Darparu Rhagoriaeth, yn Effeithlon	21

Rhagair

Mae'r Strategaeth hon yn cwmpasu cyfnod o bedair blynedd o 2021 i 2024. Ar ôl hyn bydd yn cael ei hadolygu a'i hailasesu, gan fod y cyfnod hwn yn un o ansicrwydd arbennig, o ystyried y bydd ffactorau y tu hwnt i'n rheolaeth uniongyrchol yn y pen draw yn dylanwadu ar gyfeiriad strategol tymor hwy ein gwasanaeth llyfrgell.

Ymhlith yr heriau penodol sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd mae gostyngiadau parhaus sylweddol yn y gyllideb, a'r ffaith ei bod yn bosibl na fydd effaith lawn y pandemig Covid-19 yn dod yn gwbl amlwg am nifer o flynyddoedd.

Yn ychwanegol at hyn, nid yw'r cyfeiriad strategol cenedlaethol ar gyfer llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru wedi'i sefydlu eto gan Lywodraeth Cymru, gan fod dau ddarn allweddol o waith yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd, a fydd yn dylanwadu ar ein Strategaeth Llyfrgelloedd nesaf. Y rhain yw:

- Cyhoeddi Cynllun Diwylliannol i Gymru, sydd i'w gyhoeddi yn 2023.
- Adolygiad o Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru: mae'r rhain yn ffurfio fframwaith ar gyfer mesur ac adrodd ar berfformiad, gyda 12 Hawl Craidd ac 16 Dangosydd Perfformiad, ac mae gan rai o'r olaf hefyd dargedau yr ydym yn ceisio eu cyrraedd.

Fodd bynnag, mae'r blaenoriaethau blaenorol yn dal yn berthnasol ac mae hyn yn amlwg yn y ffaith bod ein tri maes blaenoriaeth yn parhau i fod yr un fath ag yn ein Strategaeth 'Ysbrydoledig' flaenorol. Mae'r ddogfen hon yn adolygu cynnydd dros y 5 mlynedd diwethaf; mae'n disgrifio ein llwyddiannau, yn amlinellu'r hyn y byddwn yn parhau i'w wneud, ac yn nodi ein dyheadau ar gyfer datblygu yn y dyfodol.

Byddwn yn parhau i adeiladu ar lwyddiant Glan-yr-afon ac mae gennym eisoes nifer o brosiectau ar y gweill (adleoli Arberth a Phenfro), sy'n dangos ein hymrwymiad i fuddsoddiad parhaus a moderneiddio'r gwasanaeth, wrth barhau i weithio gyda grwpiau cymunedol newydd i gyflawni gwasanaethau (Neyland a Saundersfoot).

Mike Cavanagh, Pennaeth Gwasanaethau Diwylliannol, Hamdden, Cofrestru a Thwristiaeth.

Cyflwyniad

Diben y ddogfen hon yw amlinellu'r cyfeiriad strategol ar gyfer Llyfrgelloedd Sir Benfro. Bydd yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y pedair blynedd nesaf o 2021 i 2024. Mae llawer wedi digwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gydag effaith cyni, Brexit ac, wrth gwrs, COVID-19 yn effeithio ar y modd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Mae ystyriaethau, megis pwysau cyllidebol, lefelau staffio, poblogaeth sy'n heneiddio, newidiadau mewn technoleg a chynnydd yn y galw am E-adnoddau, yn ei gwneud yn ofynnol i Lyfrgelloedd allu addasu i newid a moderneiddio mewn rhai meysydd.

Mae'r ffactorau a ystyriwyd wrth nodi blaenoriaethau yn cynnwys:

- Cyd-destun Strategol Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol.
- Perfformiad yn erbyn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.
- Effaith y pandemig a sut y gallai'r gwasanaeth addasu os na chaiff y mater ei ddatrys yn y tymor byr
- Gwerthusiad o boblogaeth Sir Benfro a'n haelodaeth bresennol.

Ein Gweledigaeth

I fod y gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus gorau yng Nghymru.

Ein Cenhadaeth

Rydym yn bodoli:

I wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl; i leihau anfantais; i annog dysgu gydol oes, brwydro yn erbyn allgáu digidol, ysbrydoli darllen er pleser, a chreu cymunedau cryfach ac iachach.

Byddwn yn gwneud hyn:

Drwy gyflawni gwasanaethau rhagorol yn gyson; drwy dargedu ein gweithgarwch at y bobl a'r cymunedau mwyaf anghenus; drwy ofyn i bobl beth sydd ei angen arnynt gan y gwasanaeth, a thrwy gydweithio i gyflawni mwy nag y gallem ei gyflawni ar ein pennau ein hunain.

Gwasanaeth Llyfrgell Sir Benfro 2021

Darpariaeth Gwasanaeth Presennol

Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu drwy rwydwaith o 12 o lyfrgelloedd wedi'u lleoli ym mhrif ganolfannau poblogaeth Hwlfordd, Aberdaugleddau, Doc Penfro, Abergwaun, Dinbych-y-pysgod, Tyddewi, Saundersfoot, Penfro, Neyland, Trefdraeth, Arberth a Chrymych. Mae llyfrgell deithiol yn ymweld â 58 o bentrefi ychwanegol ac mae gwasanaeth Llyfrgell yn y Cartref yn dosbarthu llyfrau i bobl na allant gael mynediad hawdd i lyfrgell oherwydd anabledd, eiddilwch neu gyfrifoldebau gofalu.

Mae pob un o'n llyfrgelloedd yn cynnig mannau diogel, deniadol sy'n rhad ac am ddim yn y pwynt cyswllt ac sy'n agored i bawb.

Mae gwasanaethau presennol, sydd ar gael am ddim, yn cynnwys:

- Staff cyfeillgar, gwybodus yn cynnig mynediad i ystod eang o ffynonellau gwybodaeth ac yn darparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol.
- Llyfrau, yn y Gymraeg a'r Saesneg, i gefnogi darllen er pleser, dysgu gydol oes a lles personol.
- Llyfrau mewn fformatau gwahanol, megis Print Bras a Llafar, ac adnoddau eraill megis papurau newydd, cylchgronau ac ati.
- Mynediad at adnoddau ar-lein, fel e-Lyfrau ac e-Gylchgronau sydd ar gael 24 awr y dydd.
- Mynediad digidol trwy gyfrifiaduron cyhoeddus, defnydd o'r Rhyngwrdd a Wi-Fi.
- Mannau diogel, croesawgar a hygyrch yng nghanol ein cymunedau.
- Gweithgareddau hamdden a diwylliannol sy'n annog cyfranogiad cymunedol ac yn mynd i'r afael ag unigrwydd.
- Lle i bartneriaid hyrwyddo a darparu gwasanaethau i gynulleidfaoedd newydd ac amrywiol, gan alluogi mwy o bobl i elwa arnynt.

Adolygiad Pum Mlynedd

Cyni

Mae rheoli llyfrgelloedd yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf wedi'i arwain gan ostyngiad sylweddol yn y gyllideb. Yn unol ag adrannau eraill Cyngor Sir Penfro, mae llyfrgelloedd wedi cael y dasg o wneud arbedion effeithlonrwydd parhaus. Mae'n dyst i'r staff rhagorol bod yr arbedion wedi'u gwneud heb fod angen cau unrhyw lyfrgelloedd. Cyflawnwyd hyn drwy gyflwyno ffyrdd newydd o weithio, megis datblygu llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned ac adolygu'r oriau agor.

Mesurau llwyddiant

Llywiyd Gweledigaeth a'r Genhadaeth a nodir yn 'Ysbrydoledig: Strategaeth ar gyfer Llyfrgelloedd Sir Benfro 2015-20' gan ddadansoddiad o'r hyn y mae'r llyfrgelloedd cyhoeddus gorau yn ei wneud i dargedu gwasanaethau ar:

- Greu cymunedau cryfach ac iachach
- Cefnogi canlyniadau economaidd
- Hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a helpu i greu'r amodau ar gyfer symudedd cymdeithasol
- Darparu porth allan o dlodi.

Mesurwyd y dyhead i fod y 'gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus gorau yng Nghymru' yn erbyn tair blaenoriaeth gyffredinol. Casglwyd data yn yr arolwg blyneddol 'Gwneud Gwahaniaeth', sydd hefyd wedi'i gynnwys yn adroddiad Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.

Blaenoriaeth 1: Creu Cymunedau Cryfach ac Iachach

- Mae canran yr oedolion sydd wedi dod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol am iechedd a lles yn eu llyfrgell wedi codi dros y 5 mlynedd diwethaf o 93% i 96%, sy'n golygu mai ni yw'r gwasanaeth llyfrgell sy'n perfformio orau yng Nghymru.
- Ar gyfartaledd mae 98% o oedolion yn meddwl bod eu llyfrgell yn lle plaserus, diogel a chynhwysol i ymweld ag ef.

Blaenoriaeth 2: Lleihau Tlodi

- Ym mhedair o'r pum mlynedd diwethaf, roeddem ymhlith y 5 llyfrgell gyhoeddus orau yng Nghymru ar gyfer y dangosyddion perfformiad canlynol:
 - Canran yr oedolion sy'n meddwl bod defnyddio'r llyfrgell wedi eu helpu i ddatblygu sgiliau newydd.
 - Canran y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a darganfod pethau.
 - Canran yr oedolion a'r plant sy'n meddwl bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau.

Blaenoriaeth 3: Darparu Rhagoriaeth, Yn Effeithlon

- Mae nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd wedi cynyddu'n aruthrol o 382,032 yn 2015/16 i 541,295 yn 2019/20 oherwydd agor Glan-yr-Afon: Llyfrgell, Oriel a Gwybodaeth i Ymwelwyr.

Glan-yr-Afon

Yn ystod y pum mlynedd diwethaf gwelwyd nifer o ddatblygiadau, yn fwyaf nodedig agor Llyfrgell y Sir newydd, Glan-yr-Afon, ym mis Rhagfyr 2018. Mae Glan-yr-Afon yn gyfleuster diwylliannol blaenllaw yng nghanol tref Hwlfordd. O ganlyniad i bartneriaeth rhwng Cyngor Sir Penfro a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, mae'r safle yn cynnwys:

- Gofod llyfrgell yn yr 21ain ganrif, sy'n cyfuno stoc llyfrau traddodiadol â mynediad ar-lein a thechnoleg hunanwasanaeth.
- Oriel o arwyddocâd cenedlaethol, yn dod â rhai o drysorau'r genedl i'r sir.
- Ardal i blant ar thema'r castell, ynghyd â thŵr darllen i'r plant a wal stori ryngweithiol.
- Mae'r Bywydfan: Ffyrdd o Wella Lles yn cynnwys cyfoeth o wybodaeth am 'Iechyd a Lles', a 'Sgiliau Gwaith ac Arian'. Siop Goffi ar brydles fasnachol.
- Gwybodaeth i ymwelwyr, gan gynnwys adnoddau a gefnogir gan Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Daeth cyllid i adeiladu'r cyfleuster o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys Cyngor Sir Penfro, Llywodraeth Cymru, Sefydliad Wolfson, Sefydliad Foyle, ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Rhagorodd y perfformiad ar ddisgwyliadau a oedd eisoes yn uchel gyda thua 300,000 o ymweliadau yn ei flwyddyn gyntaf a llawer o ganmoliaeth gan ddefnyddwyr y llyfrgell, yn rhai presennol a newydd. Un o'r rhesymau dros leoli'r cyfleuster newydd yng nghanol y dref oedd cefnogi adfywiad economaidd. Cafwyd effaith gadarnhaol ar unwaith yn hyn o beth, wrth i nifer yr ymwelwyr â chanol y dref ym mis Rhagfyr 2018 gynyddu 10%, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda chynnydd pellach yn 2019 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Ymgysylltu â Chynghorau Cymuned a Thref, a'r gymuned ehangach

Mae nifer o fodolau rheoli gwahanol ar ein llyfrgelloedd bellach yn bodoli mewn ymateb i anghenion lleol. Mae gwirfoddolwyr mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Llyfrgell yn rheoli llyfrgelloedd yn Arberth a Threfdraeth. Mae'r partneriaethau hyn wedi helpu i sicrhau cynaliadwyedd rhai llyfrgelloedd lleol i'r dyfodol ac wedi arwain at rywfaint o gynnydd mewn oriau agor. Yn ogystal, mae Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn darparu cyfraniadau ariannol tuag at staffio yn Llyfrgelloedd Glan-yr-Afon, Tyddewi, Saundersfoot, Penfro ac Abergwaun.

Ym mis Medi 2020, symudodd Llyfrgell Neyland i Hyb Cymunedol newydd, sydd hefyd yn cynnwys neuadd chwaraeon amlwrpas, bar lolfa, swyddfa Cyngor y Dref, ystafell gyfarfod, a chyfleuster desg boeth ar gyfer darparwyr gwasanaethau cymunedol. Y llyfrgell yw'r gyntaf yn Sir Benfro i gynnig y system OPEN+. Mae hyn yn galluogi cwsmeriaid i ddefnyddio'r llyfrgell y tu allan i oriau agor arferol. Mae'r llyfrgell hefyd yn cynnwys technoleg

hunanwasanaeth, sy'n galluogi cwsmeriaid i fenthylg, dychwelyd ac adnewyddu eu heitemau.


Bywydfannau

Gan barhau i adeiladu ar llwyddiant Bywydfan Iechyd a Lles yn Llyfrgell Doc Penfro, lansiwyd Bywydfan newydd ym mis Chwefror 2016 yn Llyfrgell Abergwaun. Ffocws y Bywydfan yw Sgiliau Gwaith ac Arian, ac mae partneriaid fel Gweithffyrdd yn cyflwyno sesiynau cymorth. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad i helpu pobl i wneud y mwyaf o sgiliau cyflogaeth a ffyniant economaidd. Yn 2018, fe wnaethom lansio Bywydfan cyfun ar gyfer Iechyd a Lles, a Sgiliau Gwaith ac Arian yng Nglan-yr-Afon.


Tueddiadau perfformiad

Mae'r tueddiadau cyffredinol mewn perfformiad rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2020 i'w gweld yn Siartiau 1 – 3. Yn fwyaf nodedig, bu cynnydd dramatig mewn ymweliadau, yn bennaf oherwydd agor Glan-yr-Afon ym mis Rhagfyr 2018. Ymddengys hefyd fod darpariaeth y Llyfrgell Sirol newydd yn Hwlfordd wedi gwrthdroi tueddiadau ar i lawr i wahanol raddau mewn benthyciadau llyfrau; nifer yr aelodau gweithredol; defnyddio cyfrifiaduron, a phresenoldeb mewn digwyddiadau llyfrgell. Bu cynnydd arall mewn lawrlwythiadau o lyfrau print electronig a llyfrau sain. Gellir priodoli hyn i wasanaeth llyfrgell llai yn ystod y cyfnodau clo pan oedd gan fenthycwyr fynediad cyfyngedig at lyfrau ffisegol. Y nod felly yw parhau i adeiladu ar y llwyddiant hwn dros y 5 mlynedd nesaf ac, yn benodol, ganolbwyntio ymdrechion ar gynyddu nifer yr aelodau gweithgar, benthyciadau llyfrau a'r defnydd o gyfrifiaduron, oherwydd er bod niferoedd wedi bod yn codi, mae perfformiad yn y meysydd hyn yn dal yn is na lefelau 2015.


Siart 1: Cyfansymiau blynyddol ar gyfer nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd a benthyciadau llyfrau, rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2020



Siart 2: Cyfansymiau blynyddol ar gyfer defnyddio cyfrifiaduron a nifer y lawlwythiadau electronig o lyfrau print a sain, rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2020



Siart 3: Cyfansymiau blynyddol ar gyfer nifer yr aelodau gweithredol a mynychwyr digwyddiadau llyfrgell, rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2020



Cyd-destun Strategol

Cyd-destun Strategol Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol.

O dan y 'Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd (1964)', mae'n ddyletswydd statudol ar Gyngorau i ddarparu 'gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr ac effeithlon'. Nod y Strategaeth hon yw gosod ein blaenoriaethau ar gyfer y 2 flynedd nesaf er mwyn cyflawni hyn.

Mae'r ddwy ddogfen a lywiodd y blaenoriaethau a nodir yn 'Ysbrydoledig: Strategaeth ar gyfer Llyfrgelloedd Sir Benfro 2015-20' bellach wedi'u disodli:

- 'Cynllun Integredig Sengl Sir Benfro (2013-18)' gan 'Gynllun Llesiant Sir Benfro'.
- 'Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli: y fframwaith datblygu strategol ar gyfer llyfrgelloedd Cymru (2012-16)' a amlinellir yn 'Llyfrgelloedd Cysylltiedig ac Uchelgeisiol: Chwched fframwaith ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (2017-20)'.

Mae'r Fframwaith Safonau yn cael ei adolygu ar hyn o bryd ac mae'n bosibl y gallai'r Hawliau Craidd a Dangosyddion Perfformiad, gyda thargedau a hebddynt, newid. Mae 'Llyfrgelloedd

Cysylltiedig ac Uchelgeisiol' yn debygol o gael eu lleoli o fewn y Cynllun Diwylliannol newydd i Gymru, sy'n cael ei ddrafftio ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, mae'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn y strategaeth flaenorol yn dal yn berthnasol ac yn alinio eu hunain â nodau 'Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014)' a 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)'. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen i greu cymunedau cryfach, iachach, lleihau tlodi a darparu rhagoriaeth yn effeithlon. Yn ganolog i'r ddwy Ddeddf mae llesiant pobl Cymru, ynghyd â phwysigrwydd atal problemau rhag digwydd neu rhag gwaethygu; gweithredu mewn partneriaeth â grwpiau eraill i fodloni amcanion llesiant; ac ymgysylltu â phobl a chymunedau lleol ynghylch darparu gwasanaethau. Mewn ymateb i'r ddeddfwriaeth, mae dau gynllun wedi/yn cael eu cynhyrchu, sydd wedi eu teilwra ar gyfer anghenion penodol y rhanbarth. Y rhain yw:

- Cyflawni Newid Gyda'n Gilydd: Cynllun Ardal Gorllewin Cymru (2018-2023)
- Cynllun Llesiant Sir Benfro – yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, yn dilyn ymgynghoriad

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru (Rhagfyr 2021) yn amlinellu 10 amcan llesiant yn seiliedig ar nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Maent yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldeb; adeiladu economi werdd, gynaliadwy; cefnogi cymunedau amrywiol, a hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i diwylliant.

Dogfennau eraill Llywodraeth Cymru sy'n berthnasol i'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd yw:

- Cynllun cydraddoldeb strategol (2020 – 2024)
- Cynllun cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl (2019 – 2022)
- Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg
- Cynllun gweithredu dementia ar gyfer Cymru (2018 – 2022)
- Strategaeth ddigidol i Gymru
- Strategaeth ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru (2013 – 2023)
- Cynllun cyflawni awtistiaeth (2021 – 2022)
- Strategaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl (2021)

Yn ogystal, mae Llyfrgelloedd Sir Benfro hefyd yn ceisio cefnogi strategaethau lleol, gan gynnwys:

- Cabinet CSP – Rhaglen ar gyfer Gweinyddu (2021-2022)
- Strategaeth Gofalwyr Sir Benfro (2015-20) – Yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd
- Strategaeth Anableddau Dysgu Sir Benfro (2017-22)
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol Sir Benfro (2020-24)
- Heneiddio'n Dda yn Sir Benfro – Yn cael ei adolygu ar hyn o bryd

I gyfrannu at strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol byddwn yn anelu at:

- Cefnogi'r agenda atal er mwyn atal problemau rhag digwydd neu waethygu.
- Cydweithio â grwpiau eraill i ddarparu gwasanaethau ychwanegol.
- Ymgysylltu ag aelodau'r llyfrgell a'r rhai nad ydynt yn aelodau i ddeall eu hanghenion.
- Creu amgylchedd lle gall pobl ddefnyddio'r Gymraeg.
- Sicrhau bod pob aelod o'r gymuned yn cael mynediad cyfartal i'n gwasanaethau.

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru

Mae Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yn cynnwys 12 hawl graidd ac 16 dangosydd ansawdd fel ffordd o asesu perfformiad a darpariaeth gwasanaethau. Maent hefyd yn dangos sut mae llyfrgelloedd yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl, o ran cynyddu sgiliau a gwybodaeth, iechyd a lles, bod yn rhan o gymuned a chynhwysiant digidol. Mae adroddiadau asesu blynyddol gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan, gan nodi ein bod yn 'perfformio'n dda o fewn cyllideb gyfyngedig'. Mae perfformiad yn rhagorol o ran boddhad cwsmeriaid, cyfleoedd gwirfoddoli, darpariaeth TGCh ac ymrwymiad i iechyd a lles. Fodd bynnag, mae rhai meysydd i'w gwella wedi'u nodi. Mae'r rhain yn cynnwys aelodaeth weithredol, dewis o lyfrau, ymweliadau a lefelau staffio.

Mae chweched fframwaith ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yn nodi pwysigrwydd llythrennedd gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys y sgiliau i nodi a gwerthuso ffynonellau gwybodaeth a'u cymhwyso i amcanion pellach, fel addysg, iechyd a chyflogaeth. Mae gan lyfrgelloedd ran i'w chwarae fel cyfryngwr i wybodaeth o ansawdd uchel.

Er mwyn gwella perfformiad yn erbyn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, byddwn yn anelu at:

- Gynnal ein perfformiad rhagorol yn erbyn y dangosyddion perfformiad 'Gwneud Gwahaniaeth'.
- Parhau i annog ymweliadau â'n holl lyfrgelloedd (ar ôl y cyfnodau clo).
- Cynyddu nifer aelodau'r llyfrgell.
- Diweddarau'r polisi stoc.
- Darparu mynediad i wybodaeth o ansawdd uchel.

Demograffeg Sir Benfro

Yr amcangyfrif poblogaeth diweddaraf ar gyfer Sir Benfro yw tua 125,800. Disgwylir i hyn gynyddu gan ychydig dros 3%, i 130,196 yn 2043. Yn ystod y cyfnod hwn, rhagwelir y bydd proffil oedran y boblogaeth yn newid. Mae'r ONS wedi amcangyfrif y bydd canran y plant dan 15 oed yn gostwng gan 2.3% (o 17% i 14.7%) a bydd canran y rhai dros 65 oed yn cynyddu gan 7.4% (o 26.4% i 33.8%). Bydd hyn yn cael effaith ar y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn y Sir.

Mae cyfansoddiad ethnig y sir yn wyn yn bennaf, gyda 1.6% o'r boblogaeth yn dod o'r cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Er bod Sir Benfro yn sir wledig yn bennaf, mae bron i hanner y boblogaeth yn byw ym mhrif drefi Hwlfordd, Aberdaugleddau, Abergwaun, Doc Penfro, Penfro, Neyland a Dinbych-y-pysgod. Mae trefi llai â phoblogaeth o rhwng tua 2,500 a 3,000, fel Johnston, Crymmych, Arberth, a Saundersfoot, yn cyfrif am 13%. Mae'r 39% sy'n weddill yn byw mewn pentrefi llai a chartrefi anghysbell yn y cefn gwlad o amgylch.

Mae arolwg Defnydd Iaith 2020 yn amcangyfrif bod 29% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg a 24% yn gallu darllen Cymraeg, gyda chrynodiad uwch yng ngogledd y sir nag yn y de.

Yn gyffredinol, mae Sir Benfro yn sir gymharol ffyniannus gyda 57.7% o wardiau ymhlith y lleiaf difreintiedig yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n dioddef o bocedi sylweddol o amddifadedd gyda 5.6% o wardiau ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig. Mae rhaglen Dechrau'n Deg yn targedu cymunedau ag amddifadedd uwch mewn ymdrech i roi'r wybodaeth, y sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen ar rieni i ddarparu rhianta o ansawdd gwell. Mae canolfannau yn Aberdaugleddau, Hwlfordd, Penfro a Doc Penfro.

Mae perchnogaeth ail gartrefi yn cael effaith ar gymunedau lleol. Mewn rhai ardaloedd yn Sir Benfro, tai haf yw hyd at 36% o dai. Mae gan hyn oblygiadau ar argaeledd tai fforddiadwy a chydlyniant cymunedol.

Mae adroddiad 2020 gan The Campaign to End Loneliness, 'Loneliness in West Wales' yn dangos rhai o'r heriau a wynebwr wrth fynd i'r afael ag unigrwydd yn Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Pobl hŷn yn ymddeol i'r ardal gan adael rhwydweithiau cymorth ac, ar yr un pryd, bobl iau yn gadael i astudio neu ddod o hyd i waith, gan adael llai o gyfleoedd ar gyfer cysylltiadau ystyrlon rhwng cenedlaethau.
- Dau o brif sectorau'r economi yw twristiaeth ac amaethyddiaeth, sy'n dymhorol ac, yn enwedig yn achos ffermio, yn unig.
- Mae nifer cynyddol o bobl dros 75 oed (11.9% yn Sir Benfro) mewn mwy o berygl o unigrwydd na phobl iau.
- Poblogaeth salwch hirdymor uwch na'r cyfartaledd.
- Trafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig.


Er mwyn ystyried anghenion trigolion Sir Benfro, byddwn yn anelu at:

- Ddarparu gwasanaethau sy'n hygyrch ac yn berthnasol i bawb, drwy ymgysylltu â'r holl grwpiau nodweddion gwarchodedig, a nodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb.
- Targedu gwasanaethau yn yr ardaloedd mwyaf anghenus.
- Mynd i'r afael ag unigrwydd drwy fynd â'r gwasanaeth llyfrgell i gymunedau gwledig ac at unigolion ynysig a thrwy ddarparu cyfleoedd i drigolion gymryd rhan mewn gweithgareddau.

Aelodaeth Llyfrgell


Nifer yr aelodau gweithredol ym mis Mawrth 2020 oedd 17,075, sef tua 14% o boblogaeth Sir Benfro. Mae mwy o aelodau benywaidd na gwrywaidd, 62% o'i gymharu â 38%. Mae Siart 4 yn dangos canrannau'r gwahanol grwpiau oedran sy'n defnyddio llyfrgelloedd yn rheolaidd, o'i gymharu â'r boblogaeth gyfan. Yn gyffredinol, cynrychiolir pob grŵp oedran yn gyfartal ymhlith aelodau'r llyfrgell. Mae'n dangos bod llyfrgelloedd yn adnodd pwysig i bobl o bob oed. O'i gymharu â'r boblogaeth gyfan, mae 34% o'n benthycwyr yn iau na 17 oed, tra bod y grŵp oedran hwn yn cyfrif am ddim ond 19% o'r boblogaeth. Mae hyn yn dangos bod llyfrgelloedd yn dal yn berthnasol i genedlaethau'r dyfodol.

Siart 4: Cymhariaeth o % y bobl o fewn ystod oed rhwng aelodau gweithredol a phoblogaeth Sir Benfro



Mae Siart 5 yn rhannu canrannau'r aelodau gweithredol sy'n iau na 17 oed yn grwpiau oedran llai. Mae'n dangos bod aelodaeth ymhlith plant rhwng 5 a 14 oed yn dda ond gellid gwneud mwy i gynyddu'r canrannau o oedolion cyn oed ysgol ac oedolion ifanc.

Siart 5: Cymhariaeth o % yr aelodau gweithredol sy'n iau na 17 oed o'i gymharu â phoblogaeth Sir Benfro



Gofynnodd 66% o aelodau'r llyfrgell am fynediad i gyfrifiaduron y llyfrgell, gyda 62% ohonynt yn fenywod. Mae darparu mynediad rhyngrwyd a Wi-Fi am ddim yn helpu i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau digidol yn ein cymunedau, sydd ymhlith yr uchaf yn y DU yn Sir Benfro.

Mae ychydig yn llai na hanner y benthycwyr yn byw mewn ardaloedd trefol, sy'n adlewyrchu'r ffaith bod bron i 50% o'r trigolion yn byw ym mhrif drefi Hwlfordd, Aberdaugleddau, Abergwaun, Doc Penfro, Penfro, Neyland a Dinbych-y-pysgod. Mae'r gweddill yn byw yn yr ardaloedd gwledig llai poblog. Gall y rhaniad hwn gael effaith ar y gwasanaethau sydd eu hangen ar bob cymuned, gyda ffactorau megis trafnidiaeth, cyfraddau diweithdra, proffiliau oedran ac ati yn dylanwadu a yw rhywun yn defnyddio'r llyfrgell oherwydd eisiau neu angen.

Er mwyn cymryd i ystyriaeth anghenion aelodau'r llyfrgell, byddwn yn anelu at:

- Ddarparu gwasanaethau ar gyfer pob grŵp oedran, gan gynnwys gweithgareddau pontio'r cenedlaethau.
- Gweithio mewn partneriaeth â grwpiau eraill i ddarparu cymorth digidol lle bo angen.
- Asesu anghenion a dymuniadau cymunedau trwy ymgysylltu.
- Cynyddu nifer yr aelodau cyn-ysgol ac oedolion ifanc.

Heriau

Effaith y pandemig a sut y gallai'r gwasanaeth addasu os na chaiff y mater ei ddatrys yn y tymor byr.

Arweiniodd effaith y coronafeirws (COVID-19) at gau llyfrgelloedd dros dro a dilynwyd hyn gan ddull graddol o ailagor. I ddechrau, roedd llyfrgelloedd yn cynnig gwasanaeth 'Archebu a Chasglu', lle'r oedd pobl yn gofyn i staff ddewis llyfrau ar eu rhan, i'w casglu ar amser y cytunwyd arno gan y benthyciwr. Dilynwyd hyn gan fynediad cyfyngedig i gyfrifiaduron ac yna mynediad rheoledig i'r cyhoedd bori a dewis eu llyfrau eu hunain. Yn dibynnu ar lefel y cyfnod clo, symudodd llyfrgelloedd rhwng y gwahanol gyfnodau. Cynhyrchwyd asesiadau risg manwl ar gyfer pob cam er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cyhoedd.

Ar wahân i'r effaith ar fenthyciadau llyfrau (mae benthyciadau llyfrau ffisegol ar i lawr ond mae lawrlwythiadau e-lyfrau wedi cynyddu), y brif broblem fu'r anallu i ddefnyddio llyfrgelloedd fel gofod cymdeithasol. Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau, fel amser rhigymau babanod, grwpiau gweu a chlebran, clybiau Minecraft, sgysiau gyda'r nos ac ati yn galluogi pobl i wneud cysylltiadau a chyfrannu at frwydro yn erbyn unigrwydd.

Yr her yn dilyn COVID-19 yw adfer hyder y cyhoedd mewn llyfrgelloedd ac annog unigolion i gymryd rhan unwaith eto ym mhopeth sydd ganddynt i'w gynnig. Nid yn unig i fenthyg llyfrau ond hefyd i ymgysylltu ag eraill, dysgu rhywbeth newydd a bod yn greadigol. Bydd angen aruthrol am fannau cymdeithasol hygyrch a chroesawgar lle gall pobl gyfarfod yn gorfforol eto a chael cyswllt dynol. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r gwasanaeth llyfrgell dyfu ei gynulleidfaoedd os gellir goresgyn y ffactor ofn sydd wedi'i achosi gan y pandemig.

Er mwyn cynorthwyo adferiad ar ôl y cyfnod clo, byddwn yn anelu at:

- Barhau i ddiweddarau asesiadau risg i sicrhau bod Llyfrgelloedd yn lle diogel i ymweld â hwy.
- Datblygu cynnwys ar-lein, fel amseroedd rhigymau babanod.
- Hyrwyddo llyfrgelloedd i annog pobl i ailgysylltu â'r gwasanaeth.

Rôl Dechnoleg

Mae pwysau parhaus ar gyllideb y Cyngor wedi gweld gostyngiad mewn cyllid. Mae hyn wedi cael effaith ar y gronfa adnoddau, staffio ac oriau agor. Fodd bynnag, lle/pan fo'n bosibl, mae cyllid grant wedi'i sicrhau i alluogi ffyrdd newydd o weithio. Mae peiriannau hunanwasanaeth wedi'u gosod yn llyfrgelloedd Glan-yr-Afon a Neyland, gan alluogi pobl i fenthyg, dychwelyd ac adnewyddu eu heitemau eu hunain. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i bobl sydd eisiau cael mynediad i'r llyfrgell y tu allan i oriau agor craidd, trwy gyflwyno

system OPEN+ yn Llyfrgell Neyland. Mae hyn yn galluogi aelodau'r llyfrgell i ddefnyddio'r llyfrgell heb i staff neu wirfoddolwyr fod yn bresennol o'r bore bach hyd yn hwyr gyda'r nos.

Er mwyn ymestyn y ddarpariaeth gwasanaethau, byddwn yn anelu at:

- Gyflwyno Hunanwasanaeth ac OPEN+ i'r llyfrgelloedd a'r cymunedau a fyddai'n elwa fwyaf o'r dechnoleg hon, yn enwedig datblygiadau newydd a gefnogir gan arian grant.

Y Gymraeg

Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal yn ôl yr hyn sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, er enghraifft darparu arwyddion dwyieithog a phrynu llyfrau ac adnoddau eraill yn y Gymraeg a'r Saesneg. Fodd bynnag, rydym ymhell islaw disgwyliadau rhesymol ar draws ein sylfaen staffio, gydag un aelod o staff yn rhugl yn y Gymraeg. Ein nod yw mynd i'r afael â hyn drwy wneud y Gymraeg yn hanfodol ar ddisgrifiadau swydd ar gyfer staff rheng flaen. Hefyd, cefnogi staff sy'n dysgu Cymraeg, drwy ganiatáu iddynt fynychu dosbarthiadau yn ystod amser gwaith, neu dalu oriau ychwanegol iddynt (a chostau teithio os yn briodol) os oes rhaid iddynt fynychu dosbarthiadau nos.

Er mwyn darparu gwasanaeth dwyieithog byddwn yn anelu at:

- Gynyddu nifer y staff sy'n siarad Cymraeg.

Effaith Amgylcheddol a Chynaliadwyedd

Mae llyfrgelloedd bob amser wedi cyfrannu at yr 'economi rhannu', drwy wneud y defnydd gorau o adnoddau a lleihau gwastraff. Yn draddodiadol, gwnaed hyn drwy annog pobl i fenthycu yn hytrach na phrynu llyfrau ond mae hyn wedi cael ei ymestyn i gynnwys defnydd am ddim o offer TG, e-adnoddau a gofod at ddefnydd cymunedol. Mae llyfrgelloedd hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth ddarparu mynediad at wybodaeth am faterion amgylcheddol, megis newid hinsawdd.

Yng ngoleuni'r argyfwng hinsawdd presennol, mae gennym hefyd ddyletswydd i archwilio sut arall y gallwn gyfyngu ar ein heffaith ar yr amgylchedd. Mae enghreifftiau cyfredol yn cynnwys:

- Hen lyfrau sydd wedi'u difrodi sydd wedi'u tynnu'n ôl o gylchrediad yn cael eu hanfon i'w hailgylchu, yn hytrach nag i safleoedd tirlenwi.
- Ailgylchu papur gwastraff, cardbord, plastig a gwydr a gynhyrchir mewn llyfrgelloedd.
- Darparu bagiau bwyd gwastraff a chadis bwyd at ddefnydd y cyhoedd.

- Gosod cynhyrchion ynni effeithlon e.e. paneli solar, a goleuadau synhwyro mudiant.
- Symud, lle bo modd, llyfrgelloedd i 'adeiladau newydd' sy'n dueddol o fod yn fwy ynni-effeithlon, er enghraifft cydleoli Llyfrgell Neyland â'r Hyb Cymunedol newydd.

Er mwyn gwneud cyfraniad cadarnhaol at les byd-eang, byddwn yn anelu at:

- Adleoli Llyfrgelloedd Penfro ac Arberth i gyfleusterau 'adeilad newydd' mwy ynni-effeithlon a rennir.
- Defnyddio dodrefn a chyfarpar llyfrgell sy'n fwy ecogyfeillgar ac o ffynonellau cynaliadwy, wrth osod llyfrgell newydd neu amnewid eitemau.
- Cynnal arddangosfeydd yn y llyfrgell, gan amlygu materion yn ymwneud â hinsawdd a chynaliadwyedd amgylcheddol, a threfnu digwyddiadau a gweithgareddau ar y themâu hyn.

Ein Blaenoriaethau

Blaenoriaeth 1: Creu Cymunedau Cryfach ac Iachach

Canlyniad:

Cyfrannu at yr agenda atal, gan leihau'r baich ar ofal sylfaenol drwy gefnogi pobl i ofalu am eu lles corfforol a meddyliol eu hunain.

Bydd llyfrgelloedd yn parhau i:

- Gymryd rhan yng nghynlluniau llyfrau Darllen yn Dda.
- Darparu casgliadau penodol o lyfrau iechyd a lles.
- Meithrin perthnasoedd â phartneriaid i helpu i gyflwyno mentrau iechyd a lles mewn llyfrgelloedd.
- Darparu ystafelloedd Bywydfan ar gyfer gweithgareddau iechyd a lles.
- Darparu gwybodaeth sy'n cefnogi ffyrdd iach o fyw mewn lleoliad cyfeillgar, anghlinigol.
- Hyrwyddo ymgyrchoedd iechyd cenedlaethol iechyd Cyhoeddus Cymru.

Bydd llyfrgelloedd hefyd yn:

- Gweithio'n rhagweithiol i gynyddu ymwybyddiaeth a'r nifer sy'n manteisio ar deitlau Darllen yn Dda.
- Hyrwyddo manteision darllen er pleser.

Mesur llwyddiant:

- Canran yr oedolion sy'n dweud eu bod wedi dod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol am iechyd a lles yn y llyfrgell.
- Nifer o fenthyciadau llyfrau iechyd a lles.
- Nifer y gweithgareddau a gynhelir gan bartneriaid iechyd a lles.

Canlyniad:

Lleihau ynysu cymdeithasol drwy ddarparu cyfleoedd i bobl gyfarfod a gwneud cysylltiadau a chynnig gwasanaethau i bob grŵp o fewn ein cymunedau.

Bydd llyfrgelloedd yn parhau i:

- Gynnig amrywiaeth o weithgareddau, gan annog cyfranogiad rhwng cenedlaethau.
- Darparu gwasanaeth Llyfrgell yn y Cartref i ddosbarthu llyfrau i bobl na allant gael mynediad hawdd i lyfrgell oherwydd anabledd, eiddilwch neu gyfrifoldebau gofalu.
- Cysylltu cymunedau gwledig trwy gynnig Gwasanaeth Llyfrgell Deithiol.
- Darparu ystod o wybodaeth leol.

- Gweithio mewn partneriaeth â Llyfrgell Genedlaethol Cymru i ddarparu digwyddiadau diwylliannol yng Nglan-yr-Afon.
- Cynnig gofod llyfrgell am ddim i grwpiau cymunedol nid-er-elw gyfarfod, megis Gwau a Chlebran.
- Cynnig gweithgareddau wedi'u targedu at grwpiau ag anghenion penodol, fel Gofalwyr.
- Cynnig gweithgareddau yn y Gymraeg lle bo modd.
- Parhau i roi cyfle i staff ddysgu Cymraeg.

Bydd llyfrgelloedd hefyd yn:

- Gweithio tuag at Wobr Arian Buddsoddwyr mewn Gofalwyr ar gyfer Llyfrgelloedd Sir Benfro yn eu cyfanrwydd.
- Ymchwilio i lyfrgelloedd sy'n cyflawni statws cyfeillgar i Awtistiaeth / Dementia / Dyslecsia.
- Ceisio cynnwys yr holl grwpiau a nodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb wrth ymgynghori â'r cyhoedd.
- Cefnogi gwaith Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru drwy sicrhau bod llyfrgelloedd yn gyfeillgar i oed.
- Hyrwyddo'r Gwasanaeth Llyfrgell yn y Cartref.
- Gwneud y gallu i siarad Cymraeg (neu ddysgu ar ôl cael eu penodi) yn ofyniad hanfodol ar gyfer staff rheng flaen newydd.

Mesur llwyddiant:

- Canran yr oedolion sy'n profi'r llyfrgell fel lle pleserus, diogel a chynhwysol.
- Cyflawni Gwobr Arian Buddsoddwyr mewn Gofalwyr.
- Cyflawni statws cyfeillgar i Awtistiaeth / Dementia / Dyslecsia.
- Nifer presenoldeb mewn digwyddiadau.
- Nifer benthycwyr Llyfrgell yn y Cartref.

Blaenoriaeth 2: Lleihau Tlodi

Canlyniad:

Cefnogi pobl i gyflawni eu potensial a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ffynnu a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb.

Bydd llyfrgelloedd yn parhau i:

- Ddarparu mynediad i dechnoleg, y rhyngrwyd ac adnoddau sy'n cefnogi dysgu gydol oes.
- Gweithio gyda phartneriaid i gynnig cymorth i geiswyr gwaith a darparu hyfforddiant sgiliau sylfaenol.

- Cynnig mwy o amser ar gyfrifiaduron personol i alluogi ceiswyr gwaith i lunio CVs a cheisiadau am swyddi.
- Cyfeirio pobl at asiantaethau perthnasol ar adegau o angen e.e. cymorth i hawlio Credyd Cynhwysol.
- Gweithio mewn partneriaeth â Llyfrgell Genedlaethol Cymru i ddarparu digwyddiadau addysgol yng Nglan-yr-Afon.

Bydd llyfrgelloedd hefyd yn:

- Datblygu rolau ar gyfer gwirfoddolwyr fel ffordd o gynyddu sgiliau a chael profiad.
- Darparu fersiynau hawdd eu darllen o wybodaeth pan fyddant ar gael.
- Ymchwilio i ddileu dirwyon a ffioedd.
- Ymchwilio i gynnwys llyfrgelloedd yn Fy Nghyfrif/My Account.
- Hyrwyddo'r llyfrgell fel ffynhonnell o wybodaeth o ansawdd uchel.
- Darparu arddangosfeydd â thema sy'n amlygu materion cyfoes fel newid hinsawdd.

Mesur llwyddiant:

- Canran yr oedolion sy'n meddwl bod defnyddio'r llyfrgell wedi eu helpu i ddatblygu sgiliau newydd.
- Canran y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a darganfod pethau.
- Canran yr oedolion a chanran y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau.
- Penderfyniad wedi'i wneud yn ymwneud â dileu dirwyon a ffioedd.
- Creu a hyrwyddo rolau gwirfoddol newydd.

Canlyniad:

Ysbrydoli a datblygu cariad at ddarllen ar draws pob grŵp oedran, i gefnogi twf cymdeithas llythrennog a hyderus.

Bydd llyfrgelloedd yn parhau i:

- Annog cariad at ddarllen ymhlith plant, trwy gymryd rhan mewn cynlluniau cenedlaethol, megis Sialens Ddarllen yr Haf a Dechrau Da.
- Darparu cymorth llythrennedd i blant cyn oed ysgol trwy Amser Rhigwm i Fabanod.
- Cynnig cefnogaeth i grwpiau darllen.
- Hyrwyddo mynediad at e-lyfrau, e-sain ac e-gylchgronau.
- Creu arddangosfeydd llyfrau i annog darllenwyr i 'roi cynnig ar rywbeth newydd'.

Bydd llyfrgelloedd hefyd yn:

- Edrych ar ddefnyddio technoleg ddigidol i ehangu ein harlwy, gan gynnwys grwpiau darllen ar-lein ac amseroedd stori.
- Diweddarau'r Polisi Stoc i sicrhau bod llyfrau'n diwallu anghenion cymunedau lleol a bod ein stoc yn hollgynhwysol, gan adlewyrchu amrywiaeth.

- Gweithio gydag Ymwelwyr Iechyd i ailasesu rheolaeth a dosbarthiad pecynnau Dechrau Da.
- Hyrwyddo gwasanaethau llyfrgell i deuluoedd â phlant dan bump oed ac i oedolion ifanc.

Mesur llwyddiant:

- Nifer y benthyciadau (argraffu ac electronig).
- Polisi Stoc wedi'i Ddiweddarau.
- Cymryd rhan yn Sialens Ddarllen yr Haf.
- Nifer yr aelodau actif o dan bump oed ac oedolion ifanc.

Blaenoriaeth 3: Darparu Rhagoriaeth, yn Effeithlon

Canlyniad:

Cynyddu cyfranogiad – ffisegol a digidol, i wneud y mwyaf o'r buddion a ddaw yn sgil llyfrgelloedd, i gynifer o bobl â phosibl.

Bydd llyfrgelloedd yn parhau i:

- Hyrwyddo gwasanaethau trwy dudalen we'r llyfrgell, datganiadau i'r wasg a Facebook.
- Ymgysylltu ag aelodau'r llyfrgell drwy'r arolwg blynyddol 'Gwneud Gwahaniaeth' (os bydd cyfyngiadau).
- Defnyddio'r offeryn ymgysylltu 'Dweud eich Dweud' i gael adborth gan y cyhoedd am y gwasanaeth.
- Diweddarau asesiadau risg i sicrhau defnydd diogel o lyfrgelloedd.

Bydd llyfrgelloedd hefyd yn:

- Llunio Strategaeth Cyfryngau Cymdeithasol.
- Uwchsgilio staff i ddefnyddio mwy o lwyfannau digidol i gyrraedd cynulleidfia ehangach.
- Ymateb i anghenion cymunedau lleol, drwy ymgysylltu â'r cyhoedd.
- Datblygu Proffiliau Llyfrgell unigol, i hysbysu penderfyniadau trwy ddadansoddi perfformiad ac ymchwilio i ofynion cymunedau lleol.

Mesur llwyddiant:

- Nifer yr aelodau gweithgar ac ymweliadau.
- Cynhyrchu Strategaeth Cyfryngau Cymdeithasol
- Casglu Proffiliau Llyfrgell

Canlyniad:

Ehangu ein gallu i ddarparu gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr ac effeithlon trwy weithio gyda grwpiau cymunedol a threialu technolegau newydd.

Bydd llyfrgelloedd yn parhau i:

- Ddarparu cefnogaeth broffesiynol i Lyfrgelloedd a Reolir gan y Gymuned.
- Cynnig peiriannau hunanwasanaeth yn Llyfrgell Glan-yr-Afon a Llyfrgell Neyland.
- Cynnig OPEN+ yn Llyfrgell Neyland.

Bydd llyfrgelloedd hefyd yn:

- Adolygu cynllun peilot OPEN+ yn Llyfrgell Neyland.
- Cynnal astudiaethau dichonoldeb i ddarpariaeth hunanwasanaeth ac OPEN+ mewn llyfrgelloedd eraill.
- Gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Cymuned Saundersfoot i sefydlu Llyfrgell a Reolir gan y Gymuned.
- Adleoli Llyfrgell Arberth i safle'r Hen Ysgol, mewn cysylltiad â phartneriaid cymunedol
- Adleoli Llyfrgell Penfro i ddatblygiad Cei'r De, gan weithio mewn cysylltiad ag Ymddiriedolaeth Harri Tudur a Chyngor Tref Penfro i sefydlu Canolfan i Ymwelwyr, Siop Goffi a Llyfrgell Harri Tudur, gan osod OPEN+ i wella oriau agor y llyfrgell.
- Ymchwilio i ddisodli Cardiau Llyfrgell yn y dyfodol, gyda chynhyrchion sy'n fwy cynaliadwy yn amgylcheddol.

Mesur llwyddiant:

- Adrodd canlyniad cynllun peilot Neyland Open+.
- Adleoli Llyfrgelloedd Arberth a Phenfro.
- Sefydlu partneriaeth Llyfrgelloedd a Reolir gan y Gymuned newydd, i ddarparu gwasanaethau ar y cyd yn y dyfodol yn Saundersfoot